Centre for Alternative Technology
Canolfan y Dechnoleg Amgen

## DATGANIAD DIOGELU DATA

Mae CyDA yn cadw gwybodaeth a ddarperir gan ymgeiswyr ac aelodau staff at bwrpas gwneud a monitro penderfyniadau cyflogaeth ac i fodloni rhwymedigaethau statudol. Bydd unrhyw wybodaeth a roddir i CyDA yn y cyd-destun hwn yn cael ei thrin yn gyfrinachol a'i defnyddio gan staff a rheolwyr yn unig, gan gynnwys Adnoddau Dynol, yn ystod eich cais.

**Cyn-recriwtio**

Yn unol â Deddf Diogelu Data 2018, bydd unrhyw ddiddordeb neu gais ffurfiol am swydd yn cael eu defnyddio at ddibenion y recriwtio penodol hwnnw yn unig.

Bydd staff yn yr adran Adnoddau Dynol yn gysylltiedig â phrosesu'r wybodaeth ac ni fyddant yn caniatáu mynediad pellach i'r wybodaeth gan unrhyw un heblaw'r panel recriwtio penodedig.

Mae copïau o ffurflenni cais a CVau sy'n ofynnol gan y panel cyfweld yn cael eu gwaredu ar ôl y broses gyfweld. Dim ond y ffurflen gais wreiddiol sy'n cael ei chadw.  Yn achos ymgeiswyr aflwyddiannus, cedwir y dogfennau gwreiddiol ar ffeil am gyfnod o flwyddyn, cyn ei gwaredu'n ddiogel drwy ei rhwygo'n fân.

Defnyddir dogfennau gwreiddiol yr ymgeisydd llwyddiannus i greu ffeil cyflogaeth bersonol.